SEFYDLIAD **DYSGU** A **GWAITH**
**LEARNING** AND **WORK** INSTITUTE

## SWYDD-DDISGRIFIAD: CYFARWYDDWR CYMRU

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Gweithio hybrid: 2-3 diwrnod yr wythnos o'r cartref, y gweddill yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Mae'r swydd ar gael ar sail hyblyg |
| **Tîm:** | Tîm Cymru ac aelod o'r Uwch Dîm Rheoli |
| **Rheolwr Llinell:** | Prif Weithredwr |
| **Cyflog:** | £64,450 -£77,880 |

### PRIF DDIBEN

Mae'r swydd yn un allweddol yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith, yn arwain ein tîm a'n gwaith yng Nghymru ac yn rhan o Uwch Dîm Rheoli'r Sefydliad. Nod y swydd yw cynyddu ein heffaith ymhellach ar ddysgu, sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru, trwy: gynyddu ac amrywio ein hincwm; cynyddu ein proffil; rheoli ein partneriaethau strategol ac arfer dylanwad ar y lefelau uchaf yng Nghymru; a sicrhau ein bod yn cyflawni polisïau, ymchwil a digwyddiadau o safon uchel sy'n gwneud gwahaniaeth i bolisïau ac ymarfer. Bydd deiliad y swydd hefyd yn aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, yn gweithio ar draws y sefydliad, i sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig, bod y Sefydliad yn lle diddorol a chefnogol i weithio, ac arwain ar fentrau sefydliadol penodol.

### DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

**Cynhyrchu incwm ac arallgyfeirio.** Nodi a sicrhau ffynonellau incwm newydd gan gynnwys cynhyrchu ceisiadau llwyddiannus, o safon uchel, am gyllid, gan weithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad lle y bo'n briodol.

**Cynllunio strategol ac ariannol.** Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun strategol y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda'n Grŵp Strategaeth Cymru a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu effaith, a sicrhau cynaliadwyedd ariannol gwaith y Sefydliad yng Nghymru.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid.** Datblygu perthynas effeithiol a chynhyrchiol ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yng Nghymru, gan gynnwys gyda gweinidogion, cynghorwyr arbennig ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru, a dylanwadwyr allweddol eraill, er mwyn i ni greu'r effaith fwyaf.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth.** Bod yn aelod gweithredol o'r Uwch Dîm Rheoli ac yn arweinydd sefydliadol, yn hybu gwaith cydgysylltiedig a'r Sefydliad fel lle gwych i weithio. Arwain ein tîm yng Nghymru, a sicrhau bod ganddynt gyfleoedd i ddatblygu ymhellach. Gweithredu bob amser mewn ffordd gynhwysol, gydweithredol ac agored sy'n byw ein gwerthoedd.

**Rheoli prosiect.** Sicrhau bod ein portffolio o waith yng Nghymru yn cael ei gyflawni ar amser, o fewn y gyllideb, ac i safon uchel, a chreu cysylltiadau rhwng prosiectau er mwyn iddynt gael yr effaith fwyaf.

**Cyfathrebu strategol.** Hyrwyddo proffil allanol a negeseuon allanol y Sefydliad Dysgu a Gwaith trwy weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a'r cyfryngau. Sicrhau bod y Sefydliad yn cyflawni safonau'r iaith Gymraeg bob amser.

Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan y Prif Swyddog Gweithredol, gan gynnwys teithio i swyddfeydd eraill y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

## MANYLEB PERSON

| | **Hanfodol/ Dymunol** |
|---|---|
| Y gallu i ddatblygu ffrydiau busnes ac incwm newydd gan gynnwys ymateb i dendrau a chynhyrchu cyllid rhagweithiol gan ymddiriedolaethau sefydliadau | H |
| Sgiliau rhyngbersonol gwych gyda'r gallu i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd. Byddwch yn hyderus ar lwyfannau cenedlaethol, yn trafod gyda'r cyfryngau; ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol fathau o lwyfannau a chyfryngau cymdeithasol. | H |
| Sgiliau arweinyddiaeth sy'n cynnwys datblygu a chymell staff a thimau, a'r gallu i weithio ar y cyd fel rhan o'r Uwch Dîm Rheoli | H |
| Y gallu i greu a gwella rhwydweithiau, cynghreiriau a pherthynas ar y lefel uchaf ar draws rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys gwleidyddion a llunwyr polisi | H |
| Gwybodaeth ddatblygedig o'r amgylchedd gwleidyddol a pholisi yng Nghymru ym meysydd dysgu, sgiliau a chyflogaeth | H |
| Deall meysydd polisi ac arfer dysgu, sgiliau a chyflogaeth ar draws y DU a'r rhwydwaith o gysylltiadau yng Nghymru a'r DU | D |
| Gwybodaeth neu brofiad o ofynion llywodraethu, gan gynnwys gweithio gyda Byrddau yn y trydydd sector | D |
| Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar gwych i ddylanwadu a darbwyllo, yn gyflwynydd hyderus gyda'r gallu i uniaethu â gwahanol gynulleidfaoedd | H |
| Byddwch yn meddwl yn arloesol ac yn greadigol gyda phrofiad o drawsnewid syniadau yn arfer a'r gallu i ddeall a dadansoddi ystod o waith ymchwil a pholisïau | D |
| Y gallu i reoli portffolio o brosiectau a digwyddiadau ymchwil a pholisi yn effeithiol, wedi'u cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb i safon uchel | H |
| Y gallu i ddatblygu ffrydiau busnes ac incwm newydd i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith gan gynnwys ymateb i dendrau a chynhyrchu cyllid rhagweithiol o ymddiriedolaethau a sefydliadau | H |

| | Hanfodol/ Dymunol |
|---|---|
| Y gallu i ddatblygu ffrydiau busnes ac incwm newydd gan gynnwys ymateb i dendrau a chynhyrchu cyllid rhagweithiol gan ymddiriedolaethau sefydliadau | H |
| Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, a'r hyder i wneud hynny | D |

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gweithio ar draws y DU, a disgwylir i'r staff weithio ar draws y sefydliad.  Mae ein gwaith yng Nghymru yn cael ei arwain gan dîm yng Nghaerdydd, ond mae'n ofynnol i bob aelod o staff ddilyn y canllawiau yn ein cynllun Iaith Gymraeg pan fyddant yn gweithio yng Nghymru.

Medi 2022